SESIWN PLANT

Nod Cynorthwyo'r plant i feddwl am anghenion pobl y Philipinas a chasglu arian tuag at Apêl Eglwys Bresbyteraidd at Cymorth Cristnogol 2017.

O'r Beibl

Darllenwch hanes iachau'r claf o'r parlys (Luc 5: 17 – 26) o un o'r Beiblau canlynol:

I. Beibl Bach i Blant, "Syniad Da, Rhif 41"
II. Beibl Newydd y Storïwr, t. 94 "Mynd Drwy'r To"
III. Beibl.net 365 o Storïau, t. 280 "Iesu'n iachau dyn wedi ei barlysu"
IV. Beibl Newydd y Plant t. 148 "Dyn oedd yn methu cerdded"

Trafod

Wedi i chi ddarllen yr hanes, trafodwch y cwestiynau:
Oedran 4 – 7

- Beth oedd y dyn yn y stori yn methu ei wneud?
- Pwy helpodd y dyn i gyrraedd at Iesu?
- Oedd hi'n hawdd i'r dynion gario eu ffrind at Iesu?
- Beth wnaeth Iesu i'r dyn?

Oedran 6 - 11

- Pam ydych chi'n meddwl fod y pedwar dyn wedi dod a'u ffrind at Iesu?
- Pam nad oedd y dyn yn gallu mynd at Iesu ei hun?
- Pwy fuasech chi eisiau trio ei helpu?

Eglurwch ein bod ni eisiau bod yn debyg i'r pedwar ffrind a helpu pobl ymhell dros y byd sydd angen ein help ni. Rydyn ni eisiau dod a nhw at Iesu mewn gweddi, ac rydyn ni eisiau ceisio codi arian i'w helpu.

Cyflwyniad i'r Pilipinas

Byddwch angen: cadeiriau, map o'r byd neu glôb, arweinydd i gymryd rhan peilot, arweinydd i gymryd rhan stiward awyr, lluniau o'r Philipinas (wedi eu hargraffu oddi ar y we)
Gosodwch gadeiriau yn debyg i rai mewn awyren.
Eglurwch wrth y plant eich bod yn mynd i esgus eich bod yn mynd ar daith mewn awyren ac mai chi fydd y peilot. Dwedwch wrthyn nhw am eistedd yn eu seddi ac esgus gwisgo eu gwregys diogelwch. Gallwch chi (y peilot) neu'r stiward awyr, ddefnyddio'r map o'r byd, neu'r glôb i ddangos o ble'r ydych chi'n cychwyn a llwybr esgus taith eich awyren i'r Philipinas. Cofiwch enwi rhyw 4 gwlad sydd ar eich taith.

Cychwynwch ar eich taith gan annog y plant i egsus codi yn yr awyren. Wrth deithio gall y peilot ddweud eich bod yn hedfan uwchben y gwledydd sydd ar eich taith ac annog y plant i godi llaw ar y bobl yn y wlad e.e. 'Rydym yn hedfan uwchben Ffrainc – codwch eich llaw ar bobl Ffrainc'. Defnyddiwch eich dychymyg i wneud y 'daith' yn hwyl e.e. 'Mae yna ychydig o derfysg' (pawb i esgus neidio yn eu seddi).
Teithiwch fel hyn am rhyw 5 munud. Yna cymerwch arnoch eich bod yn glanio yn y Philipinas, ar Ynys Cebu ble mae Christian Jay Batousa yn byw.

Gemau

Mae plant y Pilipinas yn mwynhau chwarae gemau fel mae plant Cymru. Tybed pa rai fuasech chi yn eu chwarae gyda Chrisitan?

1. ***"Agawan base":*** *Dwyn y 'cartref' – gêm fywiog o redeg a dal. Gellid addasu ar gyfer plant ieuengach.*

Chwaraewyr: Gêm i 2 dîm gydag o leiaf 2 ymhob tîm. Po fwyaf y chwaraewyr, mwyaf yr hwyl!
Bydd angen 2 farciwr fel 'cartref' – gall y cartref fod yn goeden, yn garreg, yn esgid.
Pwrpas y gêm: diogelu'r cartref rhag y tîm arall gan ofalu nad oes aelod o'r tîm arall yn llwyddo i roi eu troed ar y cartref. Nod arall yw dal gymaint o aelodau'r tîm arall â phosib'; os bydd tîm yn dal aelodau'r tîm arall i gyd, yna byddant yn ennill.
Y rheolau: Mae dau gartref gyda'r un nifer yn y ddau, a bydd un aelod o'r tîm yn amddiffyn y cartref. Mae aelodau eraill y tîm yn cael gadael y cartref gan geisio defnyddio strategaeth ac amseru i ddwyn cartref y tîm arall trwy sefyll arno.
Pan mae aelod o un tîm yn gadael eu cartref, mae aelod o'r tîm arall yn cael rhedeg i'w ddal. Y person i adael eu cartref gyntaf yw'r un fydd yn cael ei ddal gan y tîm arall. Os fyddan nhw yn cael eu dal maen nhw'n sefyll gyda'u breichiau ar led wrth gartref y tîm sydd wedi eu dal. Gall y person yma gael eu gollwng yn rhydd os bydd aelod o'u tîm yn llwyddo i'w cyffwrdd heb gael eu dal. Wedi eu rhyddhau maen nhw'n cael rhedeg yn ôl i'w cartref.
Gall un tîm guro'r llall trwy ddal aelodau'r tîm i gyd, neu sefyll ar gartre'r tîm arall.

2. ***"Tumbang preso"*** *Gellid addasu ar gyfer plant ieuengach.*

Gêm boblogaidd arall sy'n cael ei chwarae yn y Pilipinas.
Chwaraewyr: 5-10
Bydd angen: Tun gwag neu focs plastig ac un sliper (neu fflip-fflop) i bob chwaraewr.
Pwrpas y gêm: Y nod yw taro'r tun drosodd gyda'r sliper ("pamato") yna rhedeg i nôl y sliper cyn i'r un sy'n gwarchod y tun eich cyffwrdd.
Y Rheolau: Gosodir y tun gwag i sefyll tua 5 – 8 metr o'r llinell daflu tra mae un gwarchodwr yn amddiffyn y tun trwy sefyll wrth ei ymyl.
Mae'r chwaraewyr yn sefyll tu ôl i'r llinell daflu ac yn ceisio taro'r tun i lawr gyda'u sliper fesul un. Os bydd y tun yn cael ei daro ac yn disgyn, mae'r chwaraewyr yn rhedeg i nôl eu sliperi. Yn y cyfamser mae'r gwarchodwr yn gosod y tun yn ôl yn ei le, yna yn ceisio cyffwrdd y chwaraewyr sy'n nôl eu sliperi. Os bydd yn cyffwrdd un, yna bydd y person hwnnw yn cymeryd ei le fel gwarchodwr y tun.
Os oes un o'r taflwyr heb lwyddo i nôl ei sliper, gall y taflwyr eraill geisio taro'r tun i roi cyfle iddo nôl ei sliper. Bydd y taflwyr yn cael eu dal yn y gofod rhwng y llinell daflu a'r tun yn unig.

3. ***"Pêl-fasged"*** *Gellid addasu ar gyfer plant ieuengach.*

Chwaraewyr: 2 dîm, hyd at 12 o blant bob un. Un plentyn i fod yn fasged trwy sefyll a'i ddwy fraich i greu cylch fel basged.
Bydd angen: pêl (feddal os yn chwarae tu fewn)
Pwrpas y gêm: Mae'r timau yn ceisio taflu'r bêl i'w basged (sef y person a'i freichiau mewn cylch).
Y rheolau: Ni chaiff y chwaraewyr gyffwrdd ei gilydd. Rhaid iddyn nhw fownsio y bêl wrth symud. Rhaid cadw pellter rhesymol oddi wrth y fasged i sgorio.

Stori Christian Jay Batousa
(ar gyfer y plant ieuengaf)

Mae Christian yn 13 oed ac mae'n byw ar ynys Cebu. Mae ynys Cebu yn Y Pilipinas.
Mae Christian yn byw mewn rhan dlawd iawn o ddinas Cebu. Mae llawer iawn o bobl yn byw mewn lle bach mewn slymiau.

Un noson, cafodd pawb eu deffro gan sŵn cloch yn canu. Y gloch dân oedd hi!
Roedd rhaid i Christian a'i frawd a'i chwaer ddianc am eu bywyd gyda'u teulu.
Roedd yn rhaid i bawb yn y slymiau ddianc am eu bywyd rhag y tân.
Diolch i Cymorth Cristnogol, roedd y bobl wedi bod yn cael ymarfer tân ac fe lwyddodd pawb i ddianc yn ddiogel.
Roedden nhw i gyd wedi colli eu cartrefi.
Doedd ganddyn nhw ddim ar ôl ond y dillad roedden nhw yn eu gwisgo.
Ond roedd pawb yn ddiogel.

Mae'r Pilipinas yn le poeth i fyw. Weithiau mae yna stormydd mawr iawn, ac mae'r gwynt yn ofnadwy o gryf. Mae'r glaw yn drwm ac mae yna lifogydd. Weithiau mae yna ddaeargryn yn y Pilipinas.

Ers noson y tân, mae Christian a'i deulu wedi bod yn byw mewn pabell.
Mae hi'n boeth yn y babell.
Mae rhai o'r bobl yn cysgu y tu allan am ei bod yn rhy boeth yn y babell.

Ers y tân mae Christian a'r plant eraill wedi gorfod symud i ysgol wahanol.
Mae Christian yn mynd i'r ysgol erbyn chwech o'r gloch yn y bore, ac yn dod adre erbyn chwarter i un.
Mae yna lawer iawn o blant yn ei ddosbarth.
Does yna ddim cadeiriau a byrddau i bawb, ac maen nhw yn gorfod rhannu.
Mae rhai o'r plant yn cael breuddwydion drwg ar ôl dychryn pan ddaeth y tân.
Mae'r plant yn drist am eu bod wedi colli eu cartref a phob dim oedd ganddyn nhw.

Ond mae yna newyddion da!
Mae Cymorth Cristnogol yn helpu y bobl dlawd i siarad gyda'r llywodraeth.
Maen nhw am gael cartrefi newydd.
Bydd y tai yn cael eu codi lle'r oedden nhw yn arfer byw cyn y tân.

Bydd yr arian y byddwn ni yn ei gasglu tuag at Cymorth Cristnogol yn helpu pobl fel Christian a'i deulu.

Stori Christian Jay Batousa
(ar gyfer y plant hŷn)

Mae Christian yn fachgen 13 oed sy'n byw yng nghymuned Mantuyong, ynys Cebu, Y Pilipinas.
Rhan o ddinas Cebu, ail ddinas y Pilipinas yw Mantuyong lle mae Christian yn byw. Mae hi'n ardal dlawd iawn a llawer o bobl yn byw ar ben ei gilydd mewn slymiau mawr.

Am 1.35 y bore ar Fawrth 12 2016 cafodd teuluoedd y gymuned eu deffro gan sŵn cloch yn canu – y gloch dân oedd hi! Roedd tan wedi cydio ynghanol eu cymuned ac roedd rhaid i bawb ddianc. Dyma'r trydydd tân yno dros y blynyddoedd diwethaf. Llwyddodd y gymuned i ddiffodd y ddau dân cyntaf cyn i'r frigâd dân gyrraedd. Ond y tro hwn roedd hi'n ganol nos pan ddechreuodd y tân ac roedd pawb yn cysgu. Erbyn i rhywun ganu'r gloch roedd y tân yn rhy ffyrnig i'r tîm cymunedol geisio ei ddiffodd. Yr unig beth oedd yn bosibl i'w wneud oedd arwain pobl i le diogel. Oherwydd yr holl ymarferiadau tân yr oeddent wedi eu gwneud gyda help partner Cymorth Cristnogol, FORGE, llwyddodd y tim achub wneud eu gwaith yn effeithiol ac arweiniwyd pawb i ddiogelwch.
Llosgwyd tua 500 o dai i'r llawr ac effeithiwyd dros 2000 o bobl, ond diolch i drefn y tîm achub, ni chafodd unrhyw un anafiadau drwg ac ni gollwyd yr un bywyd. Y noson honno cafodd pawb le i gysgu mewn Canolfan Hamdden.

Gyda help FORGE (partner Cymorth Cristnogol) roedd y gymuned hon wedi bod yn cynnal ymarferiadau diogelwch tan, ac ymarferiadau rhag stormydd a thrychinebau naturiol.

O fewn dau ddiwnrod roedd y gymuned wedi llwyddo i gael help y cyngor lleol ac wedi cael pebyll a safle dros dro iddyn nhw fyw. Mae'r bobl yn dal i fod yn byw mewn pebyll wrth ymyl hen Ganolfan sydd yn adfail. Mae tua 600 o deuluoedd yno. Mae hi'n gallu bod mor boeth yno nes fod yn well gan y bobl gysgu tu allan.

Mae Christian yn fachgen bychan ac mae'n dawel iawn. Mae ganddo un brawd ac un chwaer. Mae rhai o'r plant yn y gwersyll wedi dioddef yn ofnadwy ar ôl y tân. Mae rhai yn cael breuddwydion cas ar ôl dychryn, a cholli eu cartrefi. Mae llawer wedi gorfod symud ysgol am fod y gwersyll mor bell oddi wrth lle'r oedden nhw'n byw.

Hoff bwnc Christian yn yr ysgol yw'r iaith Filipino. Ei hoff chwaraeon yw pêl fasged.
Dydi Christian ddim eisiau byw yn y gwersyll yma am byth. Mae'n ei chael yn anodd i wneud ei waith cartref am ei fod yn codi mor gynnar. Mae'r ysgol yn cychwyn am 6.00 y bore ac yn gorffen am 12.40. Mae tua 46 – 50 o ddisgyblion yn y dosbarth a does yna ddim digon o fyrddau na chadeiriau i bawb, felly maen nhw'n gorfod rhannu.

Y newyddion da ydi fod pobl yn y gymuned am gael tai newydd yn y lle'r oedden nhw'n byw. Mae FORGE wedi helpu'r bobl i drafod adeilau tai gyda'r llywodraeth. Bydd yr arian fydd yn cael ei gasglu gennym ni yng nghapeli Eglwys Bresbyteraidd Cymru yn helpu i wneud gwahaniaeth i fywydau pobl fel Christian a'i deulu.

Gweddïo dros y Pilipinas

1. Nyddu gweddïau

Mae nyddu defnyddiau lliwgar yn rhan o ddiwylliant y Pilipinas, gyda gwahanol lwythau yn creu patrymau nodweddiadol.

Byddwch angen: ffrâm e.e. ffrâm llun rhad a stribedi cerdyn gwahanol liwiau.

1. Gludwch gyfres o stribedi gwahanol liwiau ar y ffrâm gan adael lled cerdyn rhwng pob stribed.
2. Rhowch stribed lliw i'r plant sgwennu eu gweddi arnyn nhw.
3. Gofynnwch i'r plant wehyddu eu stribed gweddi rhwngy stribedi lliw ar y ffrâm.

2. Blodau gweddi

Byddwch angen: Papur lliw tenau, pinnau ffelt, sisyrnau, powlen o ddŵr.

1. Gofynnwch i'r plant feddwl am blant yr un oed â nhw sy'n byw yn y Pilipinas.
2. Gofynnwch iddyn nhw dorri siâp blodyn neu seren allan o'r papur.
3. Gofynnwch iddyn nhw ysgrifennu gweddi ar ganol y siâp.
4. Plygwch betalau'r blodau, neu bigau'r sêr i'r canol (fel yn y llun).
5. Gosodwch waelod y siâp gweddi ar wyneb y dŵr a gwyliwch y petalau/pigau'n agor yn araf. Bydd y siâp yn arnofio ar wyneb y dŵr.

Crefft i godi arian

Mae pobl sy'n byw yn y slymiau yn Cebu yn plannu llysiau mewn hen boteli plastig am nad oes ganddyn nhw ardd.
Beth am fynd ati i blannu pêlysiau neu flodau neu letys mewn poteli plastig diodydd a'u gwerthu i aelodau'r capel neu ffrindiau.
Yr unig beth fyddwch ei angen fydd: hen boteli plastig, siswrn, compost a hadau.

Syniadau codi arian i'r teulu i gyd

- **Noson gemau bwrdd:** Gofynnwch i'r plant ddod a'u hoff gêm fwrdd. Codwch dâl mynediad a chynnig paned/ diod a bisged yn y pris.

- **Noson cwis teulu:** rowndiau amrywiol gan efelychu ambell gwis teledu e.e. "Catchphrase", Rownd sylwi'n fanwl (gwylio darn o ffilm), Rownd lluniau – adnabod cymeriadau Disney, Sion a Sian (pa mor dda ydych chi'n nabod eich plant/rhieni?).

- **Swper Pilipinas/Cymru**: cynnig bwyd o'r ddwy wlad. Gwerthwch docynnau ac addurnwch y festri.

- **Bownsio'r bêl i'r Pilipinas!** Mae yna 6,898 milltir o Gymru i'r Pilipinas. Beth am geisio cael gymaint o aelodau'r capel a'r Ysgol Sul/ Clwb Plant ac Ieuenctid (a digon o beli!) at ei gilydd i fownsio'r peli 6,898 o weithiau a chael eich noddi am wneud!

- **Darllen y Beibl noddedig.** Gwahoddwch aelodau'r capel a theuluoedd yr Ysgol Sul i ddarllen un o Feiblau'r plant e.e. Beibl Bach Stori Duw neu Beibl Bach i Blant. Cynhaliwch weithgarwch arall o gwmpas y digwyddiad e.e. creu 'bunting' Pilipinaidd, paentio wynebau ar thema Pilipinaidd.

Nia Wyn Williams
Swyddog Addysg ac Adnoddau